**Gwybodaeth i Gleifion**

**Talipes Unochrog**

**Adran Mamolaeth**



Mae Talipes Cynenedigol neu droed clwb yn gyflwr sy'n affeithio ar ddatblygiad y droed a'r pigwrn.

Ystyr cynenedigol yw ei fod yno adeg yr enedigaeth.

Ystyr unochrog yw mai dim ond un ochr sy'n cael ei haffeithio a bod y droed a'r pigwrn arall yn ymddangos yn normal.

Bydd y goes sy'n cael ei haffeithio gan talipes yn troi i mewn ac weithiau i lawr hefyd fel bod gwadn y droed yn wynebu cyfeiriad annaturiol.

Mae talipes yn anhwylder gweddol gyffredin sy'n affeithio ar 1 o bob 1000 o enedigaethau yn y DU. Ni wyddys beth yw'r achos ond mae'n digwydd yn fwy aml mewn rhieni sydd â'r cyflwr neu sydd wedi cael plentyn cynt gyda talipes.

Nid yw'r cyflwr yn achosi unrhyw boen i'r babi ond, os na fydd yn cael ei drin yn ystod babandod, yna bydd cerdded ar goes heb ei thrin, yn anghyfforddus iawn.

Nid oes unrhyw driniaeth y gellir ei rhoi yn ystod y cyfnod cyn-geni ond gwelwyd bod gan eich babi talipes. Bydd hyn yn galluogi meddyg i asesu eich babi yn fuan ar ôl ei eni a phenderfynu ar driniaeth addas.

Nid oes yn rhaid i chi weld Ymgynghorydd yn ystod eich beichiogrwydd ac ni fydd y cyflwr yn affeithio ar y modd y byddwch chi am eni eich babi.

Bydd y driniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y talipes ond, yn gyffredinol, bydd yn golygu tylino tyner a chastiau i annog y droed i fynd i'w lle naturiol. Gall triniaeth ddiweddarach gynnwys lleddfu'r tensiwn yn y gewyn Achilles ac esgidiau arbennig am y tri mis cyntaf.

Ar ôl cael triniaeth, mae gan y mwyafrif llethol o blant a anwyd gyda talipes cynenedigol, draed sy'n edrych yn normal.

Os hoffech chi drafod y driniaeth i'r newydd-anedig yn fwy manwl gyda ffisiotherapydd paediatreg, yna gallwch gysylltu â'r clinig Cyn-geni a gallwn eich atgyfeirio at yr adran berthnasol.

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

www.steps-charity.org.uk/**Clubfoot**.../**unilateral**-**talipes**

www.fetalultrasound.com

www.nhs.uk/conditions/**talipes**

www.mumsnet.com/Talk/pregnancy

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English."**